



## **POLISI A GWEITHDREFN ACHWYN (DATGELIAD BUDD CYHOEDDUS)**

**Dyddiad Cyhoeddi:** Chwefror 2012

**Adolygwyd:** Mehefin 2013  
Cymeradwywyd gan y Bwrdd Corfforaeth  
24 Hydref 2014  
Mehefin 2016  
Medi 2018  
Marwth 2021

**Dyddiad Adolygu:** Medi 2022

**Cychwynnydd:** Sharon Barron, Clerc i'r Gorfforaeth

**Os oes angen y wybodaeth arnoch mewn print bras, ar dâp awdio neu mewn fformat arall:**

**Ffoniwch Swyddfa'r Clerc ar 01792 284222  
Neu e-bostiwch: sharon.barron@gowercollegeswansea.ac.uk**

## **1. CYFLWYNIAD**

1. Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd foesol ac egwyddorol. Amcan y polisi hwn a'r weithdrefn hon yw i ddarparu modd i staff cyflogedig a gweithwyr (cyfeirir atynt fel 'gweithwyr' yn y polisi hwn) godi pryderon gwirioneddol am amheuaeth o lwgrwobrwyo, torri'r gyfraith a chamweddau difrifol eraill.
2. Mae'r coleg yn annog gweithwyr i godi pryderon gwirioneddol ynglŷn ag amheuaeth o gamymddwyn ar y cam ymarferol cynharaf. Bwriedir i'r polisi hwn a'r weithdrefn hon ddarparu amddiffynfeydd i alluogi aelodau staff i godi pryderon ynglŷn â chamweithredu mewn cysylltiad â'r Coleg.
3. Mae'r polisi hwn a'r weithdrefn hon hefyd yn anelu at annog weithwyr i godi pryderon gwirioneddol trwy weithdrefnau mewnol y Coleg heb ofn mesurau anffafriol yn cael eu cymryd yn eu herbyn. Mae'r gyfraith yn caniatáu i weithwyr godi'r fath bryderon yn allanol ac mae'r polisi hwn yn rhoi gwybod i weithwyr sut y gallant wneud hynny. Fodd bynnag, gallai methiant i godi pryder o dan y weithdrefn hon arwain at ddatgeliad yn colli ei statws gwarchoddedig o dan y gyfraith.
4. Mae'r polisi hwn a'r weithdrefn hon hefyd yn ceisio cydbwyso'r angen i ganiatáu diwylliant o natur agored yn erbyn yr angen i ddiogelu gweithwyr eraill yn erbyn honiadau maleisus neu honiadau sydd heb sail digonol.
5. Mae egwyddorion agoredrwydd ac atebolrwydd sy'n sail i ddeddfwriaeth sy'n diogelu achwynwyr yn cael eu hadlewyrchu yn y polisi hwn a'r weithdrefn hon. Mae'r Coleg hefyd wedi ymrwymo i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Lwgrwobrwyo 2010.
6. Ni fydd unrhyw weithredu disgyblaethol yn cael ei gymryd yn erbyn gweithiwr ar sail datgeliad a wneir yn unol â'r weithdrefn hon oni bai ei bod wedi ei sefydlu bod y datgeliad yn faleisus neu flinderus. Fodd bynnag os yw gweithiwr wedi camddefnyddio'r polisi hwn i wneud honiadau ffug neu faleisus bydd hyn yn cael ei drin fel trosedd ddisgyblaethol ddifrifol o dan weithdrefnau disgyblaethol y Coleg.
7. Mae dysgwyr yn y Coleg hefyd yn cael eu hannog i godi pryderon gwirioneddol am amheuaeth o ddrygioni wrth wneud cwyn trwy'r weithdrefn gwyno. Mae'r polisi hwn a'r weithdrefn hon wedi eu cynllunio i ddefnydd gweithwyr yn y Coleg.

## **2. CYMHWYSEDD Y POLISI HWN A'R WEITHDREFN HON**

2.1 Mae'r polisi hwn yn gymwys i:

- holl weithwyr y Coleg, yn cynnwys prentisiaid;
- Gweithwyr sy'n cynnwys unrhyw weithwyr achlysurol; gweithwyr achlysurol wedi eu lleoli gartref; a gweithwyr is-gontractwyr; a
- Gweithwyr asiantaeth ar aseiniad o fewn y Coleg.

2.2 Gallai gweithwyr fod yn ansicr a yw'n briodol i godi eu pryder o dan y polisi hwn a'r weithdrefn hon neu a yw'n gŵyn bersonol, sy'n fwy priodol i'w chodi o dan weithdrefn gwyno'r Coleg. Mae unrhyw weithiwr yn y sefyllfa hon yn cael ei annog i fynd at Clerc y Gorfforaeth neu Bennaeth Adnoddau Dynol yn gyfrinachol am gyngor.

2.3 Dylai honiadau ynghylch cam-drin, esgeuluso neu ymddygiad amhriodol gael eu cyfeirio at Swyddog Diogelu'r Coleg (Cysylltiedig â fyfyrwyr), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (Cysylltiedig ag aelod staff) neu Clerc y Gorfforaeth (Cysylltiedig ag aelod o Fwrdd y Gorfforaeth) yn syth.

## **3. DATGELIADAU GWARCHODEDIG**

3.1 Mae'r gyfraith yn diogelu gweithwyr sydd, allan o ymdeimlad o ddyletswydd cyhoeddus, yn dymuno datgelu amheuaeth o ddrygioni neu gamymddwyn.

3.2 Mae'r gyfraith yn caniatáu i weithwyr godi beth mae'n diffinio fel 'datgeliad gwarchodedig'. Er mwyn bod yn ddatgeliad gwarchodedig, mae'n rhaid i ddatgeliad gyfeirio at gynnwys penodol (Gweler Adran 4 isod) ac mae'n rhaid hefyd i'r datgeliad gael ei wneud mewn ffordd briodol (Gweler Adran 5). Mae'n rhaid i 'ddatgeliad gwarchodedig', yng nghred rhesymol y gweithiwr sy'n ei wneud, hefyd gael ei wneud er budd y cyhoedd. Mae'n rhaid i ddatgeliad gwarchodedig gynnwys gwybodaeth benodol ac nid bod yn honiadau yn unig o amheuaeth o gamweithredu.

## **4. CYNNWYS PENODOL**

Os yng nghwrs cyflogaeth y daw gweithiwr yn ymwybodol o wybodaeth y credant yn rhesymol sy'n tueddu i ddangos un neu fwy o'r canlynol, mae'n rhaid iddynt ddefnyddio'r polisi hwn a'r weithdrefn hon:

- Bod camwedd troseddol (er enghraifft twyll, afreoleidd-dra ariannol neu academiaidd, llygredd, llwgrwobrwyo neu flacmel) wedi cael ei gyflawni, yn cael ei gyflawni neu'n debygol o gael ei gyflawni;
- Bod unigolyn wedi methu, yn methu neu'n debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol mae'n nhw'n ddarostyngedig iddynt;
- Bod camweinyddu cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd;

- Bod iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn wedi cael ei beryglu, yn cael ei beryglu, neu'n debygol o gael ei beryglu;
- Bod yr amgylchedd wedi cael ei niweidio, yn cael ei niweidio neu'n debygol o gael ei niweidio;
- Bod gwybodaeth sy'n tueddu i ddangos unrhyw un o'r uchod yn cael ei gelu'n fwriadol, neu'n debygol o gael ei gelu'n fwriadol.

## **5. GWEITHDREFN AR GYFER LLEISIO PRYDER AM GAMYMDDWYN**

5.1 Mae'r weithdrefn hon yn gymwys i'w datgelu gan weithiwr sydd â sail i gredu bod camymddwyn wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd mewn cysylltiad â Choleg Gŵyr Abertawe (boed ar ran gweithiwr arall, aelod o Fwrdd y Gorfforaeth, neu unrhyw berson arall/personau eraill).

5.2 Dylai'r gweithiwr ffonio'r rhif canlynol:

**01792 284222 Swyddfa'r Clerc, Hill House**

neu E-bost:

**sharon.barron@gowercollegeswansea.ac.uk**

neu ysgrifennu at:

**Preifat a Chyfrinachol: At y Cyfeiriedig yn Unig (PID)  
Clerc y Corff Llywodraethol  
Coleg Gŵyr Abertawe  
Heol Tycoch  
Abertawe  
SA2 9EB**

5.3 Bydd galwadau i'r rhif teleffon hwn yn cael eu hateb gan Clerc y Gorfforaeth.

5.4 Mewn amgylchiadau eithriadol er enghraifft lle mae'r honiad o gamymddwyn yn ymwneud â Chlerc y Gorfforaeth, dylai'r achwynydd gysylltu â Chadeirydd y Gorfforaeth, trwy Gynorthwy-ydd Personol y Pennaeth cyn cysylltu â chyfreithwyr y Coleg yn y cyfeiriad canlynol:

Blake Morgan  
Un Central Square  
Caerdydd  
CF10 1FS

- 5.5 Gall gweithwyr hefyd gysylltu â'r elusen Pryder Cyhoeddus mewn Gwaith am gyngor arbenigol ar faterion achwyn.

Pryder Cyhoeddus mewn Gwaith  
7-14 Great Dover Street  
Llundain SE1 4YR

Llinell gyngori achwyn: 020 3117 2520

[www.protect-advice.org.uk](http://www.protect-advice.org.uk)

- 5.6 Dylai'r gweithiwr ddatgelu i Clerc y Gorfforaeth, yn gyfrinachol y seiliau dros gredu bod camymddwyn. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r datgeliad at un o'r Aseswyr Dynodedig cyn gynted â phosibl.

- 5.7 Mae'r weithdrefn i'w dilyn gan yr Asesydd Dynodedig wedi ei hatodi yn Atodiad A.

- 5.8 Mae gweithwyr yn cael eu hannog i ddweud pwy ydynt tra'n gwneud datgeliad. Os yw datgeliad dienw yn cael ei wneud, ni fydd y Coleg mewn sefyllfa i hysbysu'r unigolyn sy'n gwneud y datgeliad o ganlyniad i'r gweithredu a gymerir gan y Coleg. Mae bod yn ddiennw hefyd yn golygu y bydd y Coleg yn cael anhawster i ymchwilio i'r fath bryder. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i benderfynu cymhwyso'r weithdrefn hon mewn perthynas â datgeliad dienw yng ngoleuni'r ystyriaethau canlynol:

- Difrifoldeb y materion sy'n cael eu codi yn y datgeliad;
- Credadwyedd y pryder; a
- Pha mor debygol yw hi y gall y pryder gael ei gadarnhau o ffynonellau priodoladwy.

- 5.9 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn croesawu unrhyw ddatgeliadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

## 6. ASESWYR DYNODEDIG

- 6.1 Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn sicrhau bod o leiaf dau aelod o'r Gorfforaeth o brofiad a pharch priodol o fewn y Coleg wedi eu dynodi ar unrhyw adeg i ddiben y weithdrefn hon fel *Aseswyr Dynodedig* ac y bydd un o'r aelodau yn cael ei ddynodi'n *Asesydd Arweiniol*.

6.2 Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn dewis unrhyw Asesydd/Aseswyr Dynodedig newydd. Yr Aseswyr Dynodedig ar hyn o bryd yw:

- Mr Ray Singh;
- Mr Gary Williams.
- Mrs Denise Thomas
- Y Parchedig Dr Adrian Morgan

Gall Bwrdd y Gorfforaeth ddileu unrhyw ddynodiad o'r fath o ganlyniad i'r weithdrefn ddewis fel yr amlinellir uchod.

6.3 Bydd yr Asesydd Arweiniol yn cydlynu hyfforddiant yr Aseswyr Dynodedig yn nefnydd y weithdrefn hon.

6.4 Ar ran yr Asesydd Arweiniol, bydd Clerc y Gorfforaeth yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Bwrdd y Gorfforaeth am y nifer o achlysuron mae'r weithdrefn hon wedi cael ei defnyddio'n ffurfiol a'r canlyniad.

## **7. DATGELU I GYRFF ALLANOL**

7.1 Mae'r polisi hwn a'r weithdrefn hon wedi cael eu gweithredu i alluogi gweithwyr i godi datgeliadau yn fewnol o fewn y Coleg. Mae gan weithiwr yr hawl i wneud datgeliad y tu allan i'r Coleg lle mae seiliau rhesymol i wneud hynny ac yn unol â'r gyfraith.

7.2 Gall gweithwyr wneud datgeliad i gorff allanol priodol a ragnodir gan y gyfraith. Mae'r rhestr o sefydliadau a chyrrff 'rhagnodedig' i'w gweld mewn gwybodaeth ar y wefan GOV.UK.

7.3 Gall gweithwyr hefyd wneud datgeliadau ar sail gyfrinachol i gyfreithiwr neu fargyfreithiwr sy'n ymarfer.

7.4 Os yw gweithiwr yn ceisio cyngor y tu allan i'r Coleg mae'n rhaid iddynt fod yn ofalus i beidio â thorri unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd na niweidio enw da'r Coleg wrth wneud hynny.

## **8. ATEBOLRWYDD**

8.1 Bydd y Coleg yn cadw cofnod o'r holl bryderon a godir o dan y polisi hwn a'r weithdrefn hon (gan gynnwys achosion lle mae'r Coleg o'r farn nad oes achos i'w ateb ac felly na ddylid gweithredu) a bydd yn adrodd i Fwrdd y Gorfforaeth, trwy'r Pwyllgor Archwilio, yn flynyddol.

## **9. CYMORTH YCHWANEGOL I WEITHWYR**

- 9.1. Ni fydd y Coleg yn goddef unrhyw aflonyddu nac erlid o weithwyr sy'n gwneud datgeliadau. Os ar unrhyw gam o'r weithdrefn hon mae gweithiwr yn teimlo eu bod yn destun pwysau anffurfiol, bwlio neu aflonyddu yn sgîl gwneud datgeliad, dylent godi'r mater hwn, yn ysgifenedig, i'r Pennaeth Adnoddau Dynol.
- 9.2. Gallai gweithiwr sy'n gwneud datgeliad fod eisiau cyfrinachedd i ofyn am gwnsela, neu gefnogaeth arall gan wasanaeth iechyd galwedigaethol y Coleg. Dylai unrhyw gais o'r fath am gwnsela neu wasanaethau cefnogi gael eu cyfeirio at y Pennaeth Gwasanaethau Adnoddau Dynol. Byddai'r fath gais yn cael ei wneud yn gyfrinachol.
- 9.3. Gall weithwyr gyrchu gwasanaethau cwnsela cyfrinachol trwy Raglen Cymorth Gweithwyr y Coleg.

## **10. ADOLYGU GWEITHDREFN**

- 10.1 Gall Bwrdd y Gorfforaeth ddiwygio'r weithdrefn hon o dro i dro, yn dilyn trafodaethau gyda staff a rhanddeiliaid allweddol.
- 10.2 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu pob dwy flynedd neu'n gynharach os yn briodol. Dylai unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r weithdrefn gael eu cyfeirio at yr Asesydd Dynodedig neu'r Clerc trwy:

**Ffôn: 01792 284222**

**E-bost: [sharon.barron@gowercollegeswansea.ac.uk](mailto:sharon.barron@gowercollegeswansea.ac.uk)**

**Ysgrifennu at:**

**Preifat a Chyfrinachol: At y Cyfeiriedig yn Unig (PID)  
Clerc y Gorfforaeth  
Coleg Gŵyr Abertawe  
Heol Tycoch  
Abertawe  
SA2 9EB**

## **11. Yr Iaith Gymraeg**

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## YMCHWILIO I'R DATGELIAD – ASESYDD DYNODEDIG

1. Bydd yr Asesydd Dynodedig (AD) yn cynnig i gyfweled y gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad yn gyfrinachol cyn gynted â phosibl ond fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith o'r datgeliad. Pwrpas y cyfweiliad fydd i'r Asesydd Dynodedig gael cymaint o wybodaeth a phosibl am seiliau'r gred am gamymddwyn ac i ymgynghori â'r gweithiwr ynghylch camau ychwanegol a allai gael eu cymryd.
2. Gall y gweithiwr gael cwmni cynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr yn y cyfweiliad. Gall yr Asesydd Dynodedig gael cwmni gweinyddwr i gymryd nodiadau.
3. Bydd copi o'r cofnod ysgrifenedig yn cael ei roi ar gael i'r gweithiwr ar ôl y cyfarfod. Bydd yr holl ohebiaeth gyda'r gweithiwr yn ysgrifenedig i'w gyfeiriad cartref ef neu hi.
4. Bydd yr AD yn cynnal ymchwiliadau cychwynnol cyn gynted â phosibl a fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith o gynnal y cyfweiliad ac, yn dilyn hyn, gall argymhell pa gamau ychwanegol y dylid eu cymryd.
5. Bydd yr AD yn ymgynghori â'r fath staff mewnlol neu reolwyr, archwilwyr a benodir gan y Coleg neu gyrff allanol eraill fel y bernir y gallai fod yn briodol.
6. Gall argymhellion ynghylch camau ychwanegol i'w cymryd gynnwys
  - Ymchwilio mewnlol neu allanol ychwanegol
  - Y dylai'r mater gael ei adrodd i Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff priodol allanol arall.
7. Dylai argymhellion gael eu gwneud gan yr AD i'r Pennaeth oni bai fod honiad fod y Pennaeth ynghlwm â'r camymddwyn, neu fod seiliau rhesymol eraill i beidio â gwneud hynny, ac os felly dylai'r argymhellion gael eu gwneud i Gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth.
8. Bydd y sawl sy'n derbyn yr argymhellion yn:
  - Cymryd pob cam o fewn ei bŵer neu ei phŵer i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu heblaw i'r graddau ym marn y sawl sy'n derbyn bod rhesymau da i beidio â gwneud hynny;
  - Cyflwyno cynllun gweithredu (gan gynnwys amserlenni) i'r AD o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn yr argymhellion, ynghylch gweithredu'r argymhellion.
  - Hysbysu Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth a'r AD yn ysgrifenedig os ydynt wedi penderfynu i beidio â gweithredu unrhyw argymhellion yn llawn, gan roi rhesymau.
9. Bydd yr AD yn hysbysu'r gweithiwr am y penderfyniad ac os na chynigir rhesymau ychwanegol bydd yr AD yn darparu rhesymau ynghylch hyn i'r gweithiwr.



10. Dylai'r seiliau y gall yr AD argymell na ddylid gweithredu ymhellach gael eu cymryd gan y Coleg fel a ganlyn:

- Bod yr AD yn fodlon nad oes gan y gweithiwr gred rhesymol fod camymddwyn o fewn ystyr y weithdrefn hon wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd;
- Bod y mater dan sylw yn destun achos cyfreithiol yn barod, neu ei fod wedi cael ei gyfeirio'n barod at unrhyw un o'r cyrff allanol fel y nodir uchod; neu
- Bod y mater yn destun achos yn barod (neu wedi bod eisoes) o dan un o weithdrefnau eraill y Coleg sy'n berthnasol i staff neu fyfyrwyr.

11. Os nad yw'r gweithiwr yn fodlon fod eu pryderon yn cael eu trin yn foddhaol gallant godi'r mater gyda'r Pennaeth.

**Llofnod:** 

**Person sy'n cymeradwyo Polisi:** Mark Jones, Pennaeth

**Dyddiad:** Mawrth 2021

# Polisi Achwyn



